**LC256**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Samplu a Dadansoddi) 1999 ac yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2000/45/EC sy’n sefydlu dulliau dadansoddi Cymunedol ar gyfer dod o hyd i fitaminau A ac E, a *tryptophan* mewn deunyddiau porthi, ac yn achos fitaminau A ac E mewn rhag-gymysgeddau.

Mae mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i Reoliadau Deunyddiau Porthi 2000, Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Sefydliadau a Chanolwyr) 1999 a Rheoliadau Deunyddiau Porthi (Gorfodi) 1999.

Dywedodd y gyfarwyddeb berthnasol, sef Cyfarwyddeb y Comisiwn 2000/45/EC, y dylai’r dulliau dadansoddi hyn gael eu cymhwyso o 1 Medi 2000 ymlaen.

Mae Lloegr wedi gwneud darpariaeth debyg ar 26 Chwefror 2001 a ddaeth i rym ar 20 Mawrth 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Mae’r Pwyllgor o’r farn bod y materion canlynol yn ddiffygiol o dan Reol Sefydlog 11.5, am eu bod yn gyfystyr â drafftio diffygiol. Gall y diffygion hyn gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Gan hynny, os caiff y cywiriadau angenrheidiol eu gwneud, drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau neu fel arall, ni fydd dim materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Rheoliad 2**

Mae ‘(Diwygio)’ wedi’i gynnwys ar gam yn nheitl Rheoliadau Deunyddiau Porthiant (Samplu a Dadansoddi) 1999 yn y testun Cymraeg.

**Rheoliad 5**

Mae angen diwygio’r rheoliad hwn am ei fod yn cyfeirio at hepgor rheoliadau anghywir o fewn Rheoliadau Deunyddiau Porthi 2001 (2001/343). Deellir nad yw Rheoliadau 2000 wedi’u cyhoeddi hyd yn hyn.

**Troednodiadau (h), (i), (k)**

Mae angen diwygio’r troednodiadau hyn am y dylai’r cyfeiriad presennol at ‘OS 2000/2481’ ddarllen ‘OS 2001/343 (Cy15)’.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

22 Mai 2001